# Y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth)

**Tystiolaeth atodol i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**

**Mehefin 2013**

ColegauCymru
Uned 7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB
Ff: 029 2052 2500
E: helo@colegaucymru.ac.uk
W: www.colegaucymru.ac.uk

CollegesWales
Unit 7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB
T: 029 2052 2500
E: hello@collegeswales.ac.uk
W: www.collegeswales.ac.uk

## Cyflwyniad

1. Cyflwynodd ColegauCymru dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (a elwir o hyn allan y Bil ABU) a rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar 23 Mai 2013.

2. Mae'r papur hwn yn rhoi rhywfaint o wybodaeth ychwanegol yn sgil y pwyntiau a godwyd yn ystod y dystiolaeth lafar ac mewn sesiynau dilynol.

3. Yn sail i'r sylwadau a wneir yn y papur hwn y mae'r gydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru yn y Papur Gwyn ar y Bil ABU o aeddfedrwydd y sector AB yng Nghymru a'r ffaith mai'r colegau sydd yn y safle gorau i bennu anghenion eu dysgwyr a'u cymunedau. Mae pasio'r Bil hwn, sy'n rhoi rhyddid ychwanegol i golegau, mor sylweddol a phwysig i golegau AB yng Nghymru ag oedd y pwerau ychwanegol a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn dilyn refferendwm 2011 i Aelodau'r Cynulliad.

4. Yn ychwanegol, y mae'n ddefnyddiol tynnu sylw at statws 'sefydliadau nid er elw sy'n gwasanaethu aelwydydd' y mae'r Bil ABU yn ceisio ei sicrhau. Mae'r statws hwn yn golygu mai sefydliadau 'nid er elw' yw colegau AB. Gallant hefyd gael eu disgrifio fel mentrau cymdeithasol nad ydynt yn cael eu gyrru gan yr angen i wneud elw ond sy'n cael eu rhedeg ar hyd llinellau busnes i sicrhau cyflwr ariannol digonol. Caiff unrhyw warged ei ail-fuddsoddi yn y dysgwyr ac yn yr adeiladau a'r cyfleusterau.

5. Nid yw'r Bil ABU yn effeithio ar unrhyw wiriadau statudol eraill ar golegau. Bydd colegau AB yn dal i fod yn destun arolygiadau Estyn, yn ogystal ag amryw safonau ac archwiliadau ariannol a chyfrifyddol, a chyfraith elusennau a chwmnïau, yn ogystal â Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd Llywodraeth Cymru.

## Asedau'r colegau

6. Mae cyfrifon cyfun Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011/12[1] (y ffigurau diweddaraf) yn dangos asedau arian parod y colegau o £124.1m. Mae'r ffigwr hwn yn cwmpasu stoc, dyledwyr, buddsoddiadau tymor byr ac arian parod mewn llaw. Rhoddir y manylion yn yr **atodiad** atodedig.

7. Mae angen cydbwyso'r ffigwr hwn yn erbyn dyledion. Cyfanswm y dyledion presennol yw £49.6m. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys gorddrafftiau, benthyciadau banc a chredydwyr eraill. Unwaith eto, rhoddir y manylion yn yr **atodiad**.

[1] *Cyfrifon Cyfun Addysg Bellach 2011/12*, Yr Adran Addysg a Sgiliau 2012. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys Coleg Harlech/WEA Gogledd Cymru na Choleg Merthyr Tudful, Prifysgol De Cymru.

8. Yn ychwanegol, ceir credydwyr sydd â'r symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn (£38.9m) a darpariaethau sy'n cynnwys incwm wedi'i ohirio yn yr hirdymor (£19.7m). Gallai'r rhain gynnwys benthyciadau banc a gymerwyd i fuddsoddi mewn gwell cyfleusterau. Bydd yn rhaid ad-dalu'r cyfanswm o £58.6m yn y pen draw.

9. Felly cyfanswm y dyledion yw £108.2m (£49.6m + £58.6m).

10. Mae hyn yn ein gadael â'r cyfrifiad canlynol: £124.1m – £108.2 = £15.9m.

11. Felly 'arian gwario' net y sector AB yw £15.9m.

12. Mae gofynion cyflwr ariannol Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai fod gan golegau arian parod net sy'n gyfwerth ag o leiaf un mis o wariant. Diben hyn yw fel y gall y colegau dalu'r staff a'r biliau pan maent yn ddyledus. Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu'r colegau i bedwar categori ar sail eu cyflwr ariannol. Mae'n rhaid i'r colegau hynny a roddir yn y ddau gategori uchaf (A a B) fod â: "Balans o arian parod mewn llaw ac adneuon banc, ar ôl tynnu dyledion cyfredol wedi'u haddasu, sy'n gyfwerth ag un mis o wariant"[2]

13. Mae gan y colegau hynny sydd yn y ddau gategori isaf (C a D) lai na gwerth un mis o wariant mewn arian parod.

14. Cyfanswm gwariant y sector yn 2011/12 oedd £432m (heb gynnwys dibrisiant). Un rhan o ddeuddeg o £432 yw £36m. Felly mae angen i golegau fod â *lleiafswm* o £36m er mwyn cyd-fynd â rheolau Llywodraeth Cymru. Gan dybio na chaiff y symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn eu galw i gael eu talu, gall y colegau ateb y gofyniad hwn. Fel a nodir ym mharagraff 4 uchod, dylai fod gan golegau sy'n ariannol ddarbodus arian i'w fuddsoddi mewn adeiladau a chyfleusterau a gwella gwasanaethau i ddysgwyr.

15. Yn ychwanegol at hyn oll, mae swm tybiannol o £145m yn ôl Safon Adrodd Ariannol 17 sy'n cwmpasu dyledion a gwyd o gynllun pensiwn llywodraeth leol. Mae'n annhebygol y gofynnir i'r colegau dalu'r swm hwn oni bai eu bod yn gadael y cynllun pensiwn neu'n rhoi'r gorau i weithredu. Serch hynny, mae ffigwr y Safon Adrodd Ariannol yn ymddangos yng nghyfrifon y colegau. Mae'r ffigwr tybiannol hwn yn fwy na chyfanswm yr asedau arian parod.

16. Ar 31 Gorffennaf 2012 roedd gan y sector Addysg Uwch, ar y llaw arall, gyfanswm asedau arian parod cyfredol o £551.6m. Y dyledion (benthyciadau banc a chredydwyr eraill) oedd £271m ac roedd y credydwyr â'r symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn a'r darpariaethau yn dod i £194.4m. Mae hyn yn gadael 'arian gwario' net o £86.2m.

---

[2] Gweithdrefnau Monitro Cyflwr Ariannol Sefydliadau AB o 1 Ionawr 2007 ymlaen, Cylchlythyr 24/2006, Llywodraeth Cymru. Rhoddir diffiniad o goleg categori A yn **Atodiad 2**

## Rôl Reoleiddio Llywodraeth Cymru

17. Fel a nodwyd yn nhystiolaeth ysgrifenedig ColegauCymru (Mai 2013), disgwylir i rôl reoleiddio Llywodraeth Cymru dros golegau gael ei chryfhau yn fuan. Yn ddiweddar, cyflwynodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau achos i Swyddfa Gabinet y Deyrnas Unedig am i Weinidogion Cymru gael eu penodi yn Brif Reoleiddiwr y colegau AB a sefydliadau AB dynodedig yng Nghymru. Mae hyn yn cyd-fynd â newidiadau a wnaed i Ddeddf Elusennau 2006 (nad ydynt wedi'u cynnwys yn Neddf Elusennau 2011). Mae'r colegau AB wedi croesawu rôl reoleiddio newydd arfaethedig Llywodraeth Cymru.

18. Bydd y rôl reoleiddio hon yn darparu camau diogelwch pwysig ar berfformiad a chywirdeb ariannol y colegau AB yng Nghymru.

## Ymdrin â gwargedion ac asedau ysgolion

19. Yr awgrym, yn ôl tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan sefydliad arall, yw bod ysgolion, fel cyrff cyhoeddus, yn gallu cadw gwargedion ac asedau, ac felly trwy oblygiad byddai colegau hefyd yn gallu gadw gwargedion ac asedau petaent yn dod yn rhan o'r Llywodraeth.

20. Mae gan ysgolion statws cyfreithiol gwahanol iawn i golegau. Sefydliadau cyhoeddus sy'n eiddo i'r awdurdod lleol yw ysgolion ac maent yn rhan o lywodraeth leol – nid y llywodraeth ganolog. Mae asedau'r ysgolion yn eiddo i'r awdurdodau lleol. Fel rhan o fenter cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru, Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, yr awdurdodau addysg lleol – nid ysgolion unigol – sy'n darparu'r arian cyfatebol (o leiaf 50%) i gyd-fynd â buddsoddiad Llywodraeth Cymru i wella ysgolion.

21. Y cwestiwn sy'n cael ei ystyried gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a chan y Bil ABU yw rhoi i'r colegau AB statws 'cyrff cyhoeddus y llywodraeth ganolog'. Nid llywodraeth leol. Byddai'r asedau a'r gwargedion, felly, yn eiddo i'r llywodraeth ganolog petai colegau AB yn dod yn rhan o'r 'llywodraeth ganolog'.

### Amrywiaeth y ddarpariaeth a ffynonellau incwm

22. Mae colegau yn sefydliadau cymhleth sydd ag amrywiaeth llawer ehangach o ddarpariaeth nag ysgolion. Bydd gan y coleg mwyaf ymhell dros 30,000 o ddysgwyr. Mae rhai yn arbenigo mewn dysgwyr 16-19 oed, a rhai eraill mewn dysgwyr 19+ (e.e. oedolion sy'n dysgu a dysgu cymunedol, neu dysgu seiliedig ar waith). Mae rhai colegau yn canolbwyntio ar gymwysterau academaidd ac mae eraill yn canolbwyntio ar bynciau galwedigaethol, eraill wedyn yn darparu cydbwysedd o'r ddau. Mae tua 80% o'r dysgwyr yn mynychu yn rhan amser.

23. Mae ysgolion, ar y llaw arall, yn canolbwyntio ar ddysgwyr amser llawn mewn ystod llai eang o grwpiau oedran. Hyd yn oed yn y chweched dosbarth mewn ysgolion, lle nad yw presenoldeb yn orfodol, mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn astudio ar sail amser llawn ac yn astudio pynciau academaidd. Mae ysgolion bellach yn cynnig rhai cyrsiau galwedigaethol ond cyfran fach o'u darpariaeth yw

hyn. Gallai fod oddeutu 2,000 o ddisgyblion mewn ysgol fawr. Bydd maint cyllideb ysgol yn aml yn llai na chyfadran neu adran arferol mewn coleg.

24. Ar ôl i'r camau uno gael eu cwblhau yn ddiweddarach eleni, ar gyfartaledd, bydd maint y colegau AB (ag eithrio'r tri sefydliad AB) dros £40m, a bydd y coleg mwyaf dros £70m. Mae colegau'n cynhyrchu incwm o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys cyrsiau cost llawn i fusnesau; dysgu seiliedig ar waith; gwasanaethau a phrosiectau ymgynghori; a phrosiectau rhyngwladol. Caiff incwm hefyd ei gynhyrchu drwy ffioedd a grantiau addysg uwch, ynghyd â ffreuturiau, bwytai a ffermydd y colegau.

25. Yn wahanol i golegau, nid yw ysgolion yn ceisio cynhyrchu incwm ychwanegol drwy ddatblygu a chynnig amrywiaeth eang o raglenni i amrywiaeth eang o ddysgwyr. Nid ydynt yn cynnig dysgu seiliedig ar waith na chyrsiau cost llawn i fusnesau. Nid ydynt yn ymgymryd â'r un math o weithgareddau rhyngwladol e.e. datblygu cwricwlwm gyda cholegau tramor (gweithgarwch sy'n cynhyrchu incwm), nac yn trefnu lleoliadau gwaith wedi'u hariannu gan yr UE i brentisiaid a myfyrwyr galwedigaethol dramor mewn diwydiant bob blwyddyn. Caiff unrhyw fuddsoddiad yn yr adeiladau a'r cyfleusterau ei ariannu gan yr awdurdod lleol gyda chymorth Llywodraeth Cymru.

26. Yn ôl Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010[3], a ddaeth yn effeithiol ar 1 Medi 2010 ac a ddaeth i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12, gall awdurdodau lleol gyfarwyddo ysgolion i wario, neu adfachu cyllideb warged ysgol, ar sail y trothwyon canlynol: £50mil yn achos ysgolion cynradd a £100mil yn achos ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig. Mae'r ddarpariaeth hon yn y rheoliadau yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol gyfarwyddo'r gwariant neu adfachu, ond nid yw'n ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud hynny. Yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn cydweithio â'r ysgolion i roi cynlluniau gwariant yn eu lle i leihau eu cyllidebau gwarged dros amser yn hytrach nag adfachu cyfran o'r gwarged. Os yw ysgol yn cynilo am reswm penodol, a bod yr awdurdod lleol yn fodlon ar y cynlluniau, gall yr ysgol gario gwarged mwy drosodd. Trothwyon y gellir cymryd camau pan fydd y ffigurau'n uwch na hwy yw'r lefelau a ddarperir yn y rheoliadau, nid trothwyon lle y mae'n rhaid cymryd camau.

27. Pe na chaiff y Bil ABU ei basio a bod y colegau yn dod yn rhan o'r llywodraeth, yn wir, gallai Llywodraeth Cymru osod rheolau ynglŷn ag ymdrin â gwargedion a phenderfynu p'un ai all y colegau gadw gwargedion ai peidio a lefel y gwarged. Byddai hyn yn tanseilio'n sylweddol gymelliannau i ddatblygu ymagweddau arloesol a chynhyrchu arian a fu'n ganolog i ymagwedd y colegau dros lawer o flynyddoedd. Effaith hyn yn yr hirdymor fyddai gwneud uwch-reolwyr yn llai entrepreneuraidd ar adeg o newid cyflym a phan fo cyllid yn debygol o fod yn fwyfwy tynn.

---

[3] *Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 Rhif 824* (16 Mawrth 2010) Llywodraeth Cymru

## Incwm a Gwariant: Colegau AB yng Nghymru

28. Yn 2011/12, roedd gan y colegau AB gyfanswm trosiant o £461.9m ac roedd £365.5m o hynny'n gyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (79.1%). Mae cyfran y cyllid y mae colegau unigol yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn amrywio o ryw 60% i hyd at fwy na 90%.

29. Y gwariant oedd £454.8m. Gwariwyd £293m (bron i ddau draean (64.4%)) ar gyflogau.

30. Felly cynhyrchodd y colegau warged o £7.0m. Mae hyn yn 1.5% o incwm y colegau – swm dros ben sy'n fach iawn.

31. O gymharu ag AU, roedd gan brifysgolion yn 2011/12 incwm o £1,274.1m a gwariant o £1,244.1m gyda gwarged o £30m (2.3%).

32. Mae colegau AB a phrifysgolion fel ei gilydd yn ceisio cynhyrchu gwargedion er mwyn buddsoddi mewn cyfleusterau ac adeiladau.

## Beth sy'n digwydd yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig

33. Mae pob un o wledydd y DU yn ymateb yn wahanol i benderfyniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol i newid statws colegau AB yn y DU. Mae Senedd San Steffan wedi pasio deddfwriaeth ar gyfer colegau yn Lloegr sy'n debyg i'r hyn sydd yn cael ei gynnig yng Nghymru drwy'r Bil ABU. Mae bellach gan golegau yn Lloegr statws 'sefydliadau nid er elw sy'n gwasanaethu aelwydydd'. Mae Gogledd Iwerddon yn debygol o ymgynghori ar ei safbwynt hithau ac mae'n cadw golwg gofalus ar ddatblygiadau yng Nghymru.

34. Yn yr Alban, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu dod â cholegau AB i mewn i'r llywodraeth. Mewn cyfres o ymatebion i gwestiynau ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 30 Mai 2013, dywedodd Michael Russell, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oed nad oes angen deddfwriaeth ac na fyddai cyflwyno deddfwriaeth yn cyd-fynd â'u blaenoriaethau polisi, a bod y canlyniadau llwyddiannus y mae eu colegau yn eu cyflawni yn seiliedig ar y bartneriaeth rhwng y Llywodraeth a'r colegau[4].

35. Serch hynny, wrth ymateb i gwestiwn arall, ymatebodd y Gweinidog y byddai'r Llywodraeth, o ganlyniad i beidio â phasio deddfwriaeth, yn lleihau'r effaith ar gyllidebau'r Alban, yn lliniaru'r risgiau mewn perthynas â chynnal cynlluniau buddsoddi cyfalaf presennol, ac yn lliniaru effaith y newid ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn.

[4] Mae paragraffau 34 a 35 yn tynnu ar atebion i gwestiynau ysgrifenedig gan Michael Russell MSP, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Senedd yr Alban 14 Mai 2013 Cwestiynau Ysgrifenedig S4W-14984 i S4W-14991

36. Mae'r ymatebion hyn yn dangos y byddai dod â'r colegau yn rhan o lywodraeth ganolog mewn gwirionedd yn arwain at newid yn y berthynas rhwng y Llywodraeth a'r colegau ac y byddai'r Llywodraeth yn ceisio lleihau neu liniaru'r risgiau. Serch hynny, nid yw Llywodraeth yr Alban wedi diffinio lleihau a lliniaru.

37. Codwyd y pwynt ynglŷn â phartneriaeth gan Ysgrifennydd Cabinet yr Alban hefyd. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu'n gryf â'r syniad o bartneriaeth fel a ddefnyddir yng Nghymru. Mae'r agenda Trawsnewid yng Nghymru yn dangos y pwynt hwn. Bu i Lywodraeth Cymru osod ei pholisi yn glir y dylai fod llai o golegau AB a chyhoeddi nifer o bapurau ymgynghori a pholisi sylweddol ar Drawsnewid. Wedyn gwahoddwyd Partneriaethau Dysgu lleol gan y Llywodraeth i lunio cynigion. Ymatebodd y colegau yn gadarnhaol i'r agenda hwn. Er 2009 ac erbyn diwedd blwyddyn galendr 2013, bydd 13 achos o uno wedi'u cyflawni.

38. Mae'r colegau yn cefnogi'n gryf bwyslais Llywodraeth Cymru ar gydweithio a chydweithredu yng Nghymru. Mae'r colegau eisoes yn cydweithio'n agos. Yn wir, mae bodolaeth ColegauCymru, a'i rwydweithiau helaeth a'i draddodiad o rannu arferion da dros lawer o flynyddoedd, yn dystiolaeth gadarn o sut mae'r colegau wedi croesawu'r bartneriaeth hon. Mae hyn yn rhan allweddol o ethos colegau yng Nghymru.

39. Yn yr Alban, ar y llaw arall, penderfynodd Llywodraeth yr Alban y dylai'r 37 coleg presennol leihau i 24 a'u trefnu i 13 rhanbarth. Llywodraeth yr Alban oedd yn penderfynu pa golegau ddylai uno ac ar yr amserlen. Ymddengys bod y diffiniad o bartneriaeth yn yr Alban yn wahanol iawn i'r hyn ydyw yng Nghymru.

## Blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer y Sector Addysg Bellach 2014/15

40. Ers i GolegauCymru roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi ei flaenoriaethau ar gyfer y sector AB yn 2014/15[5]. Mae hyn yn diweddaru llythyr blaenoriaethau mis Mai 2012. Mae'r llythyr yn nodi meysydd y mae'r colegau AB wedi perfformio'n dda ynddynt ac yn nodi ble y mae'r Gweinidog eisiau i'r colegau ganolbwyntio eu hymdrechion.

41. Fel a nodwyd yn nhystiolaeth ysgrifenedig ColegCymru i'r Pwyllgor ym mis Mai, mae'r blaenoriaethau hyn gan y Gweinidog, a gaiff eu hatgyfnerthu'n aml mewn areithiau i gynadleddau ac mewn cyfarfodydd â chynrychiolwyr ColegauCymru, yn rhoi fframwaith polisi clir a defnyddiol i'r colegau weithredu ynddo ac er mwyn iddynt allu ymateb i anghenion unigryw eu dysgwyr a'u cymunedau lleol. Mae ColegauCymru yn cefnogi i arferion cyfathrebu o'r fath barhau.

[5] *Blaenoriaethau ar gyfer y Sector AB: 2014/15*. Llythyr a anfonwyd gan Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, i Benaethiaid y Colegau AB, 24 Mai 2013

## Casgliad

42. Mae ColegauCymru yn credu bod angen y Bil ABU ar frys. Mae'r darpariaethau allweddol yn briodol. Mae'r Bil arfaethedig yn canfod cydbwysedd priodol rhwng rhoi mwy o gyfrifoldeb i golegau reoli eu hunain ar y naill law a chydnabod bod angen i golegau weithio oddi mewn i'r meysydd polisi eang a gaiff eu gosod gan y Llywodraeth ar y llaw arall.

43. Bydd ColegauCymru a'r colegau yn parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ac yn ceisio gweithredu ei pholisïau sydd â'r nod o wella cyfleoedd addysg a hyfforddiant i ddysgwyr, cymunedau a byd busnes.

# Atodiad 1

## Asedau a dyledion y colegau 2011/12[6]

| Asedau cyfredol 2011/12 | £000s |
|---|---|
| Stoc | 1,757 |
| Dyledwyr | 24,895 |
| Buddsoddiadau tymor byr | 24,878 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 72,582 |
| **Cyfanswm** | **124,111** |

| Dyledion cyfredol 2011/12 | 000s |
|---|---|
| Gorddrafftiau | 102 |
| Benthyciadau banc llai na blwyddyn | 3,199 |
| Credydwyr eraill | 40,740 |
| Grantiau ymlaen llaw | 5,239 |
| Credydwyr sydd â balansau debyd cyferbyniol | 329 |
| **Cyfanswm y dyledion** | **49,608** |
| | |
| **Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | **000s** |
| Benthyciadau allanol | 37,606 |
| Dyledion eraill/incwm wedi'i ohirio yn yr hirdymor | 1,292 |
| **Cyfanswm** | **38,898** |
| | |
| **Darpariaethau** | **000s** |
| Darpariaethau: darparu pensiwn uwch | 16,575 |
| Darpariaethau eraill | 3,100 |
| **Cyfanswm** | **19,775** |
| | |
| **Cyfanswm Llawn** | **108,281** |

| Crynodeb | 000s | 000s |
|---|---|---|
| **Asedau** | | **124,111** |
| Dyledion Cyfredol | 49,608 | |
| Credydwyr | 38,898 | |
| Darpariaethau | 19,775 | |
| **Cyfanswm dyledion/credydwyr/darpariaethau** | | **108,281** |
| **Cyfanswm yr asedau sy'n weddill** | | **15,830** |

[6] Mae'r tablau hyn yn defnyddio ffigurau o gyfrifon cyfun colegau AB 2011/12 yr Adran Addysg a Sgiliau

## Atodiad 2

## Yr hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl ar gyfer colegau sy'n bodloni Statws Cyflwr Ariannol Categori A[7]

**Categori A:** *Mae sefyllfa ariannol y sefydliad a'i strategaeth ariannol yn ategu'r cynllun sefydliadol yn gyfan gwbl*

Fel arfer bydd gan sefydliadau categori A:

- strategaeth ariannol sy'n ategu'r cynllun sefydliadol yn gyfan gwbl ac yn nodi targedau a chamau gweithredu i sicrhau'r lefelau o gynhyrchu arian a gwargedion gweithredu sy'n ddigonol i ariannu'r gweithgarwch cyfredol, sicrhau bod arian ar gael i fuddsoddi a chynhyrchu
- cronfa ariannol wrth gefn
- gwarged gweithredu o flwyddyn i flwyddyn ar lefel sy'n gyson â'r strategaeth ariannol
- llif arian parod o flwyddyn i flwyddyn o weithgareddau gweithredu ar lefel sy'n gyson â'r strategaeth ariannol
- balans o arian parod mewn llaw ac adneuon banc ar ôl tynnu'r dyledion cyfredol wedi'u haddasu
- dyledion sy'n gyfwerth ag un mis o wariant
- asedau cyfredol net
- balans positif ar gronfeydd cyffredinol wrth gefn cyn Safon Adrodd Ariannol 17
- diffyg ariannol gweithredu neu all-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu ond yn codi fel rhan o fuddsoddiadau wedi'u cynllunio neu benderfyniadau strategol sydd wedi'u gosod yn y strategaeth ariannol a'r cynllun sefydliadol ac a gyllidir yn gyfan gwbl o'r cronfeydd arian parod wrth gefn cyfredol.

[7] Wedi'i gymryd o Weithdrefnau Monitro Cyflwr Ariannol Sefydliadau AB o 1 Ionawr 2007 ymlaen, Cylchlythyr 24/2006, Llywodraeth Cymru (op cit) (gweler hefyd baragraffau 12-14 uchod)